**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref EH/00954/15

William Powell AC

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

9 Mawrth 2015

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Chwefror yn gofyn am sylwadau ar Ddeiseb P-04-627 ynghylch gwella gwasanaethau trenau cymudwyr i breswylwyr Gogledd Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i wella gwasanaethau ar draws y rhwydwaith trenau yng Nghymru. Mae Arriva Trains Cymru yn darparu 19 o wasanaethau ar hyn o bryd o'r gorllewin i Fangor ac 19 o'r dwyrain. Mae hyn yn uwch na'r lefel o 15 sydd ei angen o dan delerau cytundeb masnachfraint Cymru a'r Gororau. Hefyd mae Virgin Trains yn darparu 7 o wasanaethau dwyffordd rhwng Bangor a Llundain/Birmingham.

Cafodd y trên sy'n cyrraedd am 0936 ym Mangor ei disodli ym mis Medi 2012 am yr un bresennol sy'n cyrraedd am 1008. Digwyddodd hyn oherwydd bod gwasanaeth rhwng Manceinion a Llandudno a oedd yn bodoli eisoes, wedi ei newid i wasanaeth Caerdydd-Caergybi er mwyn sicrhau bod y galw am drenau dau a thri cherbyd yn cyd-fynd yn well â'r galw gan gwsmeriaid. Hefyd, mae'r newid yn yr amserlen ym mis Rhagfyr 2014 (a oedd yn cynnwys cyflwyno gwasanaethau *loco-haul* ychwanegol) wedi golygu bod llawer mwy o le ar drenau ar yr amseroedd brig i deithwyr Gogledd Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n teithio yn ôl ac ymlaen i Fangor. Mae'r gwasanaethau newydd *loco-hauled* hefyd wedi golygu mwy o gapasiti ar drenau llongau prysur o Gaergybi gan roi capasiti ychwanegol yn ôl ac ymlaen i Ogledd Cymru pan gynhelir digwyddiadau.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*